

No.

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, R. Fisher, C.P. Franks, S.M. Hanks, B. Loveluck-Edwards a N. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau).

150 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

151 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H.C. Hamilton a Dr. I.J. Johnson.

152 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2024 fel cofnod cywir.

153 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

154 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAID PERFFORMIAD PANEL A CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024 gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Cyflwynodd adroddiad y Cabinet Galendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2024/25 a oedd yn amlinellu'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu hystyried

No.

gan yr Aelodau drwy gydol y flwyddyn. Amlinellodd yr adroddiad hefyd gynnig i ymgysylltu ag Aelodau Etholedig wrth lunio'r prosesau, y cynlluniau a'r adroddiadau allweddol a oedd yn cyd-fynd â'r Calendr Perfformiad Blynyddol er mwyn gallu bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (LIE) (Cymru) 2021 a chyfrannu at nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD) (Cymru) 2015.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod dwy agwedd ychwanegol ar y Calendr Perfformiad yr oedd angen eu hystyried eleni - datblygu Cynllun Corfforaethol newydd a'r trefniadau ar gyfer cynnal Asesiad Perfformiad Panel (APP).

Nododd yr adroddiad hefyd, ym mharagraffau 2.2 – 2.7, y dull a oedd yn cael ei weithredu i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol pum mlynedd newydd ar gyfer 2025-2030 a fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2025. Byddai gwaith ar Gynllun Corfforaethol newydd yn cynnwys datblygu Amcanion Lles newydd a dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.

Nododd yr adroddiad y cwmpas a'r amserlen ddangosol (paragraff 2.8) ar gyfer cynnal APP y Cyngor yn hydref 2024. Wedi'i gyflwyno gan y Ddeddf LIE, diben yr APP oedd darparu her allanol annibynnol i helpu i lywio taith wella'r Cyngor drwy adeiladu ar ei hunanasesiad blynyddol ei hun. Byddai'r APP yn asesu i ba raddau yr oedd y Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad (hynny yw, arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol ac arfer llywodraethu da) ac roedd hefyd yn gyfle i ystyried gwaith a oedd yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2025-30. Cynigiwyd y dylai'r APP ganolbwyntio ar y newidiadau a oedd yn cael eu gwneud a'r dull a oedd yn cael ei weithredu i gyflawni'r hyn yr oedd ei angen i sicrhau bod y canlyniad yn canolbwyntio'n fwy ar y dyfodol ac yn gallu gwella gwydnwch y sefydliad.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y canfyddiadau allweddol a'r dysgu o'r adolygiad o ddull Hunanasesiad Blynyddol y flwyddyn flaenorol hefyd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn ogystal â chynigion i wella'r broses ymhellach yn barod ar gyfer hunanasesiad 2023/24.

Byddai Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023/24 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024 ac roedd yr amserlen hon yn cyd-fynd â'r trefniadau rheoli perfformiad presennol a byddai'n galluogi dwyn ynghyd fewnwelediadau allweddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a llywodraethu drwy gydol y flwyddyn mewn dyfarniad cryno ar ba mor dda yr oedd y Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad y Ddeddf LIE.

I gloi, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at Atodiad A yr adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth am raglen dreigl o waith ar y cyd ag Aelodau drwy gydol Calendr Perfformiad Blynyddol 2024/25 i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu hymwneud â'r gwaith o lunio a mireinio'r cynlluniau, yr adroddiadau a'r prosesau allweddol a fyddai'n eu cefnogi yn eu rôl allweddol o asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Lles, yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwella lles ei ddinasyddion.

No.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr o'r adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad mewn tair adran, fel yr adlewyrchwyd yn strwythur yr adroddiad. Felly, gofynnwyd i'r Pwyllgor ofyn cwestiynau mewn perthynas â datblygu'r Cynllun Corfforaethol ("y Cynllun") yn y lle cyntaf, yna unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r APP ac yn olaf mewn perthynas â phroses Hunanasesiad y Cyngor.

Mewn perthynas â datblygu Cynllun Corfforaethol 2025-30, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau fel a ganlyn:

- A oedd y Cynllun Corfforaethol cyfredol ar gyfer 2020-25 wedi cyflawni ei bwrpas ac, os na, beth nad oedd wedi gweithio?
- A fyddai'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cynnwys amcanion penodol y gellid eu mesur yn eu herbyn?
- A oedd newid sut yr oedd y Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau a chynlluniau ar hyn o bryd mewn perthynas â'i brosesau monitro perfformiad yn cael ei ystyried i sicrhau bod cynnydd yn atebol ond hefyd i sicrhau bod adnoddau swyddogion yn cael eu defnyddio'n briodol?
- Pa gamau yr oedd y Cyngor yn eu cymryd yn dilyn arolygon diweddar i wella ymgysylltu â'r cyhoedd a hefyd sut y byddai'r Cyngor yn monitro a oedd gweithgareddau ymgysylltu wedi bod yn llwyddiannus ai peidio?
- A fyddai'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol yn gallu gweld sut roedd y Cyngor wedi gosod amcanion o fewn y Cynllun Corfforaethol newydd o'r amrywiol ffynonellau tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod datblygu?

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod y Cynllun Corfforaethol cyfredol wedi cyflawni ei bwrpas o safbwynt sylfaenu Cyngor Bro Morgannwg dros gyfnod sylweddol o amser a gweinyddiaethau gwleidyddol. Roedd yr amcanion presennol yn y Cynllun cyfredol yn eang iawn ond fe'u hysgrifennwyd cyn pandemig a'r cyfnod adfer dilynol. Roedd y Cynllun Corfforaethol cyfredol wedi helpu i arwain y Cyngor drwy gyfnod adfer y pandemig, yr argyfwng hinsawdd datganedig, y cynnydd yn y galw am dai yn ogystal â helpu i wella gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd. Wrth symud ymlaen, byddai gan yr Aelodau gyfle pellach i fyfyrio ar lwyddiant y Cynllun cyfredol yn y broses hunanasesu, a oedd i fod i gael ei adrodd yn hydref 2024, ac felly, teimlwyd mai'r amser presennol oedd yr amser mwyaf effeithiol i ailganolbwyntio ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr hefyd nad oedd Cynllun Corfforaethol 2025-30 wedi'i ysgrifennu eto ac y byddai pob Aelod yn cael cyfle i fwydo i mewn i'r Cynllun newydd. Cydnabuwyd bod angen nodi set glir o amcanion yn gysylltiedig â'r effaith berthnasol i drigolion Bro Morgannwg yn y Cynllun dan gyd-destun gwneud arbedion a oedd yn hanfodol. Byddai'r Cynllun newydd yn cynnwys set newydd o ganlyniadau, gan gynnwys o ganlyniad i waith cydweithredol y Cyngor ac felly, byddai hyn yn wahanol i'r Cynllun Corfforaethol blaenorol, gan mai dim ond canlyniadau yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt y byddai'r Cynllun cyfredol yn eu nodi. Felly, byddai'r Cynllun newydd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) a fyddai'n sail i'r amcanion yn y Cynllun y byddai'r Aelodau mewn sefyllfa i'w cymeradwyo a dwyn y Cyngor i gyfrif amdanynt. Byddai'r

amcanion yn y Cynllun newydd yn eang ond byddai'r fframwaith mesur perfformiad yn cynnwys manylion sylweddol.

Cynigiwyd i'r nifer fawr gyfredol o Gynlluniau Gwasanaeth gael eu cydgrynhoi i 5 cynllun lefel Cyfarwyddiaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol ac i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu adroddiadau monitro perfformiad. Cydnabuwyd y dylai DPAau fod yn ystyrion i ddangos sut roedd gwasanaethau'n gweithio'n effeithiol ac i ddangos effaith gwaith o'r fath i aelodau'r cyhoedd ei weld. Mewn ymateb i sylw dilynol a godwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor ar bwysigrwydd gosod defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd ymdrechion y Cyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n hapus i ddod â mwy o wybodaeth yn ôl i'r Pwyllgor i'w hystyried er mwyn dangos sut roedd amcanion a fframwaith rheoli perfformiad y Cynllun newydd wedi'u drafftio yn ogystal â'r wybodaeth berthnasol a ddefnyddiwyd i lywio'r drafftiau.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Pwyllgor am y cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg Hunanasesiad i nodi'n fwriadol faterion i ddeall blaenoriaethau unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Roedd hwn yn fan cychwyn da a byddai'n arwain at ddigwyddiadau ymgysylltu dros fisoedd yr haf yn ogystal ag ymgynghori ar-lein i alluogi'r swyddogion i ddrafftio'r Cynllun Corfforaethol newydd yn hydref 2024. Roedd y swyddogion hefyd wedi cymryd camau i geisio symleiddio iaith o fewn drafft y Cynllun newydd er mwyn atseinio'n fwy gyda darllenwyr ac i adlewyrchu nad gêm rifau yn unig oedd canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.

I grynhoi, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Pwyllgor yn gallu gweld sut roedd y Cyngor wedi gosod amcanion o'r dystiolaeth a gasglwyd ac y byddai Cynllun Corfforaethol drafft yn cael ei gyflwyno yn hydref 2024.

Yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau mewn perthynas â'r APP y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Ai proses y Panel oedd y tro cyntaf i'r Cyngor ymgymryd â'r broses honno ac a fyddai'n amserol?
- Pwy fyddai'n penodi aelodau'r Panel ac a oedd cydbwysedd gwleidyddol ei aelodau'n cael ei ystyried?

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol mai dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor ymgymryd â'r broses APP ac mai dyma'r amser iawn i ymgymryd â'r broses gan fod hyn wedi'i gyflwyno fel gofyniad gan y Ddeddf LIE yn 2021. Roedd yr amseriad cyfredol yn ddigon hwyr i alluogi drafftio'r Cynllun Corfforaethol newydd yn seiliedig ar amcanion ystyrion ond roedd yn dal i ganiatáu digon o amser i'r Cyngor ymateb i asesiad y Panel yr oedd gofyn i'r Cyngor gyhoeddi ymateb iddo.

O ran aelodau'r Panel, y meini prawf aelodaeth a nodwyd yn yr adroddiad oedd y gofynion sylfaenol ond gellid cynyddu hyn. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cefnogi gyda cham cyntaf y broses o benodi aelodau i helpu i hwyluso'r broses drwy ddarparu rhestr o gysylltiadau defnyddiol, fodd bynnag, penderfyniad Cabinet y Cyngor fyddai'r penderfyniad ar yr aelodau. Byddai

No.

adroddiad APP yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn maes o law. Byddai'r Aelodau Etholedig ar y Panel Asesu yn allanol i Fro Morgannwg i sicrhau bod y Panel yn dod â her allanol gyda'r diben o sicrhau gwelliannau a arweinir gan gymheiriaid. Byddai'r Cyfarwyddwr yn trafod gyda CLILC gydbwysedd gwleidyddol ar y Panel, er mwyn sicrhau cydbwysedd o brofiad a phersbectif ar y Panel, yn seiliedig ar yr hyn yr oedd CLILC yn ei weld mewn Awdurdodau Lleol eraill.

Gyda chaniatâd y Pwyllgor, ychwanegodd Arweinydd y Cyngor at ymateb y swyddog drwy ddweud bod y Weinyddiaeth yn croesawu adborth adeiladol gan fod hyn yn helpu i wneud cynnydd a nododd fod y Cyngor eisoes yn y broses Hunanasesu, gyda'r Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu wedi'u gwahodd i gymryd rhan. Gwahoddod y Cyngor farn allanol, yn ogystal â mewnol, a chanmolodd adroddiad diweddar Estyn y Cyngor am fod yn onest iawn yn ei brosesau asesu. Gweithiodd Cyngor Bro Morgannwg ar draws ffiniau yng Nghymru, gydag awdurdodau lleol eraill, gan fod cytundeb ar y cyd cydnabyddedig bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio tuag at nod cyffredin er budd trigolion lleol. Roedd hefyd nifer o aseswyr cymheiriaid sefydledig a phroffesiynol wedi'u lleoli ledled Cymru y byddai Bro Morgannwg yn ystyried eu penodi'n aelodau annibynnol o'r Panel Asesu.

I gloi, crynhodd y Cadeirydd fod Cyngor Bro Morgannwg angen y bobl orau i wneud y gwaith hwn waeth beth fo'u cysylltiad gwleidyddol.

Yna croesawodd y Cadeirydd gwestiynau mewn perthynas â thrydedd adran yr adroddiad ar broses Hunanasesiad y Cyngor a chododd yr unig gwestiwn a gyflwynwyd sef beth oedd y Cyngor yn mynd i'w wneud yn wahanol y tro hwn?

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr, pan fo adroddiadau monitro perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, y byddai'r adroddiad eglurhaol hefyd yn cael ei ategu gan grynodedb hawdd ei ddarllen o'r asesiad. Byddai adroddiadau hefyd yn cynnwys mwy o astudiaethau achos i ddod â'r effaith yr oedd gwaith y Cyngor yn ei chael yn fyw. Byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad Hunanasesiad pellach gyda manylion ychwanegol yn y dyfodol agos.

Mewn ymateb i bwynt dilynol a godwyd gan y Cadeirydd ynghylch yr amserlen ar gyfer yr hunanasesiad, a'r amseriadau a nodwyd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd dros fisoedd yr haf, cydnabu'r Cyfarwyddwr bryder y Cadeirydd o ran amseru a dywedodd fod y swyddogion yn mynd i ymestyn y cyfnod ymgysylltu trwy ei ddechrau bythefnos yn gynharach a bod potensial, drwy fynd i ddigwyddiadau poblogaidd yn ystod yr haf, i ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion yn ogystal â defnyddio canlyniadau'r arolwg Beth Am Siarad. Byddai'r Aelodau yn cael gwybod am unrhyw ddyfarniad yn dilyn ymgysylltu â'r cyhoedd mewn adroddiad i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn asesu'r prosesau technegol a'r dulliau gweithredu ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd yn hytrach na bod ar y pwynt o wneud penderfyniadau sylfaenol ac felly, teimlwyd bod yr amser cyfredol yn gyfle da i gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus a mynd i ddigwyddiadau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth.

No.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig.
- (2) Cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn ôl i'r Cabinet fel a ganlyn:
 - Yn ogystal â'r meini prawf aelodaeth ar gyfer y Panel Asesu Perfformiad, fel y nodir ym mharagraff 2.12 yr adroddiad, rhoddir ystyriaeth hefyd, ochr yn ochr â chyngor a gafwyd gan gydweithwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), i weld a ddylid ceisio cydbwysedd gwleidyddol y Panel, er mwyn sicrhau ystod eang o brofiad a phersbectif cyn i'r Panel gael ei benodi gan y Cabinet.
 - Rhoddir ystyriaeth i amserlennu gweithgareddau ymgynghori, ar gyfer yr Hunanasesiad a'r Cynllun Corfforaethol, er mwyn sicrhau'r lefelau ymgysylltu mwyaf posibl dros gyfnod Gorffennaf - Hydref 2024, sydd hefyd yn cwmpasu'r toriad gwleidyddol a'r cyfnod gwyliau academaidd.
 - Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, ar yr adeg briodol o fewn y broses ddatblygu ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2025-30, i ddangos sut mae Amcanion y Cynllun a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi'u drafftio yn ogystal â'r wybodaeth a ddefnyddir i lywio'r drafftiau.

Y rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Wrth ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig i amlinellu'r dull o ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2025-2030, trefniadau a chwmpas arfaethedig ar gyfer Asesiad Perfformiad y Panel ac i gyflwyno Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2024/25.
- (2) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyhoeddi Amcanion Lles blynyddol, adolygu perfformiad yn barhaus ac ymgynghori ac adrodd ar ein perfformiad drwy hunanasesiad blynyddol yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

155 ADRODDIAD DIWEDDARU PROJECT ZERO (PW) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Mewnwelediad a Strategaeth Gorfforaethol yr adroddiad, diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd ar draws y Cyngor wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd, yr argyfwng natur a chyflawni'r ymrwymadau fel rhan o Brosiect Sero, gan gynnwys gwaith a oedd yn cael ei wneud drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nododd yr adroddiad ac Atodiad A ystod eang o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni yn erbyn ymrwymadau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd ac i fwrw ymlaen â Phrosiect Sero. Roedd hyn yn

No.

cynnwys y sgoriau cynnydd COG (coch, oren, gwyrdd) yn erbyn y camau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd. Roedd y cynnydd o fis Hydref 2023 i fis Mawrth 2024 yn cynnwys: lansio modiwlau hyfforddiant Prosiect Sero newydd, cymorth ar gyfer datgarboneiddio busnes, cyflwyno gwasanaethau i gefnogi Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle Cymru newydd, datblygu nifer o strategaethau a chynlluniau allweddol, cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan ymhellach, gwaith parhaus ar deithio llesol, adeiladu tai cyngor ynni-effeithlon ac adeiladu ysgolion carbon sero, cynnal prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy mewn tri adeilad cymunedol yn ogystal â gwaith parhaus i newid goleuadau i rai LED, a gwaith helaeth gan y Bartneriaeth Natur Leol a'r prosiect Adfer y Ddawan i gefnogi a chyfoethogi natur a bioamrywiaeth ledled y Fro.

Nododd y Swyddog fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r cyllid a oedd yn gysylltiedig â Phrosiect Sero a'r defnydd o gronfa wrth gefn Prosiect Sero. Rhoddodd yr adroddiad hefyd ddiweddariadau ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a oedd yn flaenoriaeth yng Nghynllun Lles y BGC ac a nodwyd yn adran 2.6 yr adroddiad.

I gloi, cyfeiriodd y Swyddog at Atodiad B yr adroddiad a ddangosodd y Dangosyddion Perfformiad wedi'u diweddarau ar gyfer 2024/25 a hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y dull o reoli rhaglenni.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o'r adroddiad, gofynnodd y Cynghorydd Franks am fwy o fanylion mewn perthynas â'r datganiadau a wnaed yn yr adroddiad ar gydgyssylltu â Chynghorau Tref a Chymuned drwy'r BGC, cyflwyno buddsoddiad arbed ynni mewn adeiladau cyhoeddus, ac adroddiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llygredd yng Nghymru.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol, gyda mewnbwn gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, fod y cydgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yn parhau ac yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn drwy gyfarfodydd Cyfnewid rhwng y BGC a'r Cynghorau Tref a Chymuned a chadarnhaodd fod y gwahoddiad diweddaraf wedi'i anfon i bob Cyngor Cymuned a gafodd ei annog i fynychu. Fodd bynnag, byddai presenoldeb Cynghorau Tref a Chymuned (CTChau) yn y cyfarfodydd hyn yn amrywio yn seiliedig ar y pynciau i'w trafod ym mhob cyfarfod. Roedd y BGC wedi trafod dulliau o gydgyssylltu â chynrychiolwyr CTChau o'r blaen a theimlwyd bod y cyfarfodydd cyfnewid wedi bod yn fforwm defnyddiol ar ystod o faterion. Roedd y cyfarfodydd cyfnewid yn gyfle i ddod â phartneriaid y BGC yn uniongyrchol i gynrychiolwyr CTChau ac felly roedd y swyddogion yn annog cymaint o bresenoldeb â phosibl gan gynrychiolwyr CTChau ochr yn ochr â'r rhai a oedd yn aelodau o Bwyllgor Cyswllt Cymunedol y Cyngor.

Mewn perthynas ag ymholiadau'r Cynghorydd Franks ar y buddsoddiadau arbed ynni mewn adeiladau cyhoeddus, yn ogystal ag adroddiad Llygredd yng Nghymru Llywodraeth Cymru, dywedodd y swyddogion nad oedd ganddynt y wybodaeth wrth law yn y cyfarfod ac nad oeddent yn gyfarwydd â'r adroddiad a nodwyd ac felly, byddent yn rhoi ymateb i'r Cynghorydd yn dilyn y cyfarfod, wedi cydgysylltu â'u cydweithwyr perthnasol. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Franks fod

No.

ymgysylltu â CTChau drwy'r BGC yn ddull hyd braich ac felly gofynnodd ai dyma'r fforwm gorau ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â CTChau. Croesawodd y Cynghorydd Franks fwy o wybodaeth mewn perthynas â buddsoddiadau arbed ynni a oedd wedi digwydd mewn canolfannau cymunedol a byddai'n hapus i drafod adroddiad Llygredd Llywodraeth Cymru gyda'r swyddogion yn dilyn y cyfarfod.

Yna gofynnodd y Cynghorydd Hanks a ellid rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar fflyd cerbydau trydan y Cyngor yn ogystal â'r seilwaith a ddefnyddir i gefnogi'r fflyd yn ogystal â gwybodaeth bellach ynghylch a oedd siop aildefnyddio dros dro yn cael ei chynllunio ar gyfer y ganolfan ailgylchu yn Llandŵ a chanolfan Amaeth y Fro.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad mewn perthynas â fflyd cerbydau trydan y Cyngor ac y byddai ymholiadau'n cael eu gwneud gyda'r cydweithwyr priodol mewn perthynas â chais y Cynghorydd am wybodaeth am Ganolfan Ailgylchu Llandŵ. Byddai mwy o wybodaeth hefyd yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod mewn perthynas â'r ganolfan Amaeth a oedd yn ddatblygiad Hensol.

Yna gofynnodd Is-gadeirydd y Pwyllgor y cwestiynau canlynol:

- Nawr bod ymdrechion ailgylchu wedi'u gwneud i annog gwahanu gwastraff o fewn sefydliadau, yn dilyn cyllid grant Prosiect Sero, a oedd unrhyw gyllid grant ar gael i ddisodli biniau cyhoeddus?
- Roedd cyfran fawr o oleuadau stryd Bro Morgannwg bellach yn rhai LED, a oedd yn gamau sylweddol tuag at ddatgarboneiddio, fodd bynnag, pa gamau terfynol fyddai'n cael eu cymryd i drosi holl oleuadau stryd y Cyngor i helpu i fwrw targed sero net 2030?
- Pan oedd bidiau prosiect wedi'u gwneud gan dimau gwasanaeth gan ddefnyddio cronfeydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Phrosiect Sero, a oedd unrhyw ymdrechion yn cael eu gwneud i gysylltu â rhannau eraill o'r Cyngor i hyrwyddo'r grantiau a oedd ar gael yn ehangach i sicrhau bod y broses grantiau'n gyflymach a bod cymaint â phosibl yn manteisio arni?

Mewn ymateb i gwestiwn cyntaf a thrydydd chwestiwn yr Is-gadeirydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod biniau ailgylchu wedi'i wahanu cyhoeddus wedi cael eu treialu yn y gorffennol ond bu newidiadau sylweddol mewn celfi stryd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd cyllid Prosiect Sero yn galluogi'r swyddogion i wneud treialon pellach wrth symud ymlaen, ac i ddechrau cynigiwyd y byddai treialon yn dechrau yn ardal y Bont-faen o fewn ardaloedd cymunedol ar gyfer fflatiau yn ogystal â'r tir cyhoeddus, gyda'r gobaiith o symud ymlaen wedyn i ardaloedd cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, roedd hynny'n amodol ar dreial yn cael ei gynnal yn y lle cyntaf. Roedd gwaith gwella ynni wedi'i wneud mewn tair canolfan gymunedol yn dilyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ac roedd y tair canolfan wedi'u dewis yn seiliedig ar waith yn cael yr effaith fwyaf ar gyfer y canolfannau. Byddai'r swyddogion yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru yn un o'r canolfannau cymunedol yn y dyfodol agos i drafod ansicrwydd bwyd ac i ddangos y gwelliannau i'r adeilad a byddent yn manteisio ar y cyfle i ddangos yr hyn y gellid ei gyflawni gyda chyllid. Cadarnhawyd hefyd bod y swyddogion yn gweithio'n

No.

agos gyda chydweithwyr fel rhan o broses cronfeydd wrth gefn Prosiect Sero i sicrhau bod ceisiadau am gyllid yn gadarn ac i rannu syniadau a dysgu ac annog datblygu cynigion cyllido addas.

Yna gwahoddwyd y Rheolwr Gweithredol Peirianeg i siarad gerbron y Pwyllgor mewn ymateb i ail gwestiwn yr Is-gadeirydd a ddywedodd fod rhai buddsoddiadau cyfalaf sylweddol dros y pum mlynedd flaenorol wedi golygu bod dros 90% o oleuadau stryd y Cyngor mewn ardaloedd preswyl a phrif ffyrdd wedi'u cwblhau. Felly, mae'n debyg bod y goleuadau a oedd ar ôl i'w trosi yn cael eu hystyried yn addurnol neu'n bwrpasol ac felly roedd yn anoddach ac yn fwy costus i'w trosi. Roedd y tîm perthnasol yn dymuno parhau i wneud cynnydd, ond roedd hyn yn amodol ar a oedd yr adnoddau priodol ar gael. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod Bro Morgannwg wedi gwneud yn arbennig o dda wrth drosi ei stoc oleuadau hyd yma.

Yna dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor fod 78% o allyriadau carbon mewn perthynas â chadwyn gyflenwi caffael ac felly gofynnodd a oedd y Cyngor wedi ystyried sefydlu bwrdd comisiynu i archwilio beth oedd y Cyngor yn ei brynu cyn ymgysylltu â phartneriaid defnyddwyr? Nododd y Cadeirydd hefyd fod Prosiect Sero yn datblygu ar lawer o brosiectau fodd bynnag, gofynnodd a oedd gan y swyddogion ymdeimlad bod yr ymdrechion hyn yn ddigon a/neu a fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i wybod a oedd y cynnydd a oedd yn cael ei wneud yn ddigon i fwrw'r targed?

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod y swyddogion wedi cael trafodaethau gydag Ardal i gyflawni'r un amcan ag yr oedd y Cadeirydd yn ei gynnig cyn i'r Cyngor ddechrau ar unrhyw broses gaffael. Byddai adroddiad yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a fyddai'n dangos ymdrechion y Cyngor i edrych ar yr hyn a oedd i ddod o ran gofynion y dyfodol ac wedi hynny edrych ar yr effaith ar yr amgylchedd pe bai caffael o'r fath yn mynd rhagddo. Roedd y swyddogion o'r farn bod cynnydd yn cael ei wneud a byddai'r Cynllun Rheoli Carbon, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos, yn nodi hyn yn fwy manwl. Byddai'r Cyngor hefyd yn rhoi gwybod cyn hir am ddata allyriadau carbon ar gyfer 2023/24 fel rhan o ofynion adrodd sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gellid ystyried y data ochr yn ochr â Chynllun Rheoli Carbon y Cyngor i ddangos cyfeiriad teithio'r Cyngor a pha mor llwyddiannus fu ymdrechion datgarboneiddio hyd yma.

Ychwanegodd yr Is-gadeirydd wedi hynny y byddai'n fuddiol i'r Aelodau allu gweld pa mor bell yr oedd y Cyngor yn symud ymlaen o ran prosiectau unigol yng Nghynllun Rheoli Carbon y Cyngor yn ogystal â llwyddiant o gymharu â'r data crai cyffredinol. Wedi hynny adleisiodd y Cadeirydd sylwadau'r Is-gadeirydd ac ychwanegodd ei bod yn hanfodol i'r Aelodau weld cysylltiad carbon yn erbyn pob prosiect yn enwedig dan ymbarél cyllideb ddarbodus ac i gefnogi unrhyw wariant yn y dyfodol.

Yna dywedodd y Cynghorydd Carroll fod angen i darged sero net 2030 fod yn darged gonest a bod angen ystyried a oedd y seilwaith priodol ar gael i'w fwrw. Byddai'n ddefnyddiol felly i'r Aelodau weld mwy o ddadansoddiad ynghylch a oedd targed 2030 yn realistig mewn gwirionedd yn ogystal â chymhariaeth o sut y gall

No.

ymdrechion o fewn un gwasanaeth y Cyngor negyddu ymdrechion mewn mannau eraill yn y Cyngor, er enghraifft, ymdrechion y Cyngor mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn erbyn ymrwymadau Prosiect Sero. Adleisiodd y Cynghorydd Carroll bwyntiau'r Cadeirydd mewn perthynas â'r ffaith bod cadwyn gyflenwi caffael yn berthnasol gan nad oedd y pwynt wedi'i godi'n ddigon ar hyn o bryd ac roedd angen newid y diwydiant.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod targed sero net 2030 wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac felly ei fod yn darged allanol a roddwyd ar y Cyngor. Cydnabuwyd bod y targed yn hynod heriol i'w fwrw a'i integreiddio fel busnes fel arfer. Byddai'r adroddiad wedi'i drefnu ar y Cynllun Rheoli Carbon yn rhoi'r manylion y gofynnwyd amdanynt i'r Aelodau yn ogystal â phwyslais ar ba mor bell i ffwrdd oedd y Cyngor o fwrw'r targed. Cydnabuwyd bod y ganran sylweddol o allyriadau carbon o fewn cadwyn gyflenwi caffael yn un o'r heriau mwyaf i'r Cyngor ac roedd y swyddogion o'r farn bod llawer mwy o waith i'w wneud eto.

I gloi, dywedodd y Cadeirydd fod dyddiad 2030 ar gyfer y targed sero net yn bryderus o agos ond, nid oedd yn rhesymol gwthio'r dyddiad targed yn ôl, gan fod angen gwneud ymdrechion er mwyn ceisio ei fwrw er budd pawb. Felly, roedd yn rhaid i Brosiect Sero fod wrth wraidd popeth a wnaeth y Cyngor.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r agweddau canlynol ar yr adroddiad:

- y cynnydd a nodir yn yr adroddiad ac Atodiad A mewn cysylltiad â'r heriau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd a gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- sgôr CMG o gynnydd o fis Hydref 2023 i fis Mawrth 2024 yn Atodiad A,
- y cyllid sydd ar gael mewn cronfeydd wrth gefn a'r prosiectau sydd wedi derbyn cyllid hyd yn hyn,
- y Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol wedi'u diweddarau sy'n berthnasol i Brosiect Sero, fel y nodir yn Atodiad B.

(2) Cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn ôl i'r Cabinet, ynghyd â'r rhai o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 18 Mehefin 2024, fel a ganlyn:

- Ychwanegu adroddiad ar fflyd cerbydau trydanol y Cyngor a'r seilwaith angenrheidiol at Flaenraglen Waith y Pwyllgor i'w ystyried yn y dyfodol.
- Derbyn adroddiadau a fwriadwyd ar gyfer y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau mewn cysylltiad â Phrosiect Zero a'r Cynllun Rheoli Carbon gan y Pwyllgor ar yr un agenda lle bynnag y bo modd wrth symud ymlaen a'u diwygio ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor yn unol â hynny.
- Dylai adroddiadau'r Cyngor mewn cysylltiad â phrosesau caffael roi ystyriaeth benodol i leihau ôl troed carbon y Cyngor yng nghanau cyn-

gomisiynu a dadgomisiynu'r broses, yn ogystal â'r ymdrechion sydd eisoes yn bodoli i leihau allyriadau carbon i gefnogi uchelgais y Cyngor i fod yn sero net erbyn 2030.

- Rhoddir rhagor o wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau mewn cysylltiad â'r Hwb Amaeth, fel y cyfeirir ato yng nghamau PZC4.2 a PZC9.4 Cynllun Her Hinsawdd Prosiect Sero, gan gydnabod bod y cynllun yn dal i fod yng nghamau datblygu cynnar.
- Rhoddir rhagor o wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau am p'un a ellid sefydlu siop dros dro aildddefnyddio yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Llandŵ, o gofio bod y cyfleuster i aros yn ei leoliad presennol am y dyfodol agos.

(3) Dosbarthu'r adroddiad fel y cyflwynwyd i'r holl Aelodau Etholedig, pob Cyngor Tref a Chymuned ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad i sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o: sut roedd Prosiect Sero a gwaith cysylltiedig y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ddatblygu, sgôr CMG y cynnydd o fis Hydref 2023 i fis Mawrth 2024 yn erbyn y camau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd, yr arian sydd ar gael a'r prosiectau sydd wedi derbyn arian hyd yn hyn, a'r diweddariadau a wnaed i'r Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol sy'n berthnasol i Brosiect Sero.

(2) Galluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel rhan o'i ystyriaeth o'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Her Newid Hinsawdd.

(3) Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid eraill am y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.

156 DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH Y BOBL (CAC) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi trosolwg o waith cyfredol a chynnydd yn erbyn y Strategaeth Pobl a chafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol.

Roedd y Strategaeth Pobl gyfredol (a gyflwynwyd gerbron y Cabinet ym mis Chwefror 2023) yn alluogwr strategol allweddol, gan osod y weledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â phobl ar draws y sefydliad.

Gan gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Pum Ffordd o Weithio, gwnaeth ddatganiad clir ynghylch sut yr oedd y Cyngor yn gwerthfawrogi ac yn trin ei staff a'r diwylliant yr oedd yn dymuno ei feithrin. Amlinellodd hefyd sut y byddai pawb ag amgylchedd gwaith cefnogol a meithringar er mwyn cyflawni a chefnogi'r weledigaeth o 'weithio gyda'n gilydd am ddyfodol disgleiriach'.

No.

Dyweddod y Swyddog fod gan y Strategaeth Pobl 3 thema drosfwaol, sy'n cyd-fynd yn gryf â'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Cyflawni Blynyddol, yr Amcanion Lles a Phrosiect Sero. Dyma nhw:

- Ailgynllunio ar gyfer Ymatebolrwydd,
- Ymdrechu am Berfformiad Uchel, a
- Sbarduno Profiadau Gweithwyr.

Tynnodd y Swyddog sylw'r Pwyllgor at y gweithgareddau allweddol o fewn y themâu uchod, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, i hysbysu'r Pwyllgor am gynnydd a rhoi'r cyfle i drafod prosiectau a meysydd i'w gwella yn y dyfodol.

Ar ôl i'r Swyddog gyflwyno'r adroddiad, gofynnodd Is-gadeirydd y Pwyllgor ddau gwestiwn fel a ganlyn:

- A fyddai'r Cyngor yn bwriadu datblygu ei brosesau recriwtio a dethol i gefnogi ymgeiswyr niwroamrywiol?
- Gyda bylchau o hyd o fewn galwedigaethau penodol ar draws y Cyngor, a oedd y Cyngor yn ymdrechu i ddatblygu ei weithlu presennol?

Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ei fod yn frwd dros wneud datblygiadau ym mhrosesau recriwtio a dethol y Cyngor i gefnogi unigolion niwroamrywiol ac y byddai dadansoddiad darluniadol o brosesau recriwtio'r Cyngor yn digwydd a allai awgrymu newidiadau i rai o arferion cyfredol y Cyngor. Roedd y Cyngor eisoes yn ymdrechu i dyfu ei weithlu cyfredol ac wedi gweld llwyddiant gwirioneddol o fewn ei Raglen Gofal Cymdeithasol, y Rhaglen Llwybr Carlam i Ofal a'r Rhaglen Dechrau Cyflym hyd yma. Roedd y Cyngor hefyd wedi cymryd camau i gynyddu ei raglen brentisiaethau ac i annog prentisiaethau gan raddedigion ar draws gwahanol sectorau'r Cyngor.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at Adran 2.32 yr adroddiad mewn perthynas â rhwydweithiau amrywiaeth a mynegodd ei bryder ei bod yn ymddangos bod y Cyngor yn parhau i ymdrechu i hyrwyddo Rhwydweithiau Amrywiaeth y Cyngor yn wahanol i'r argymhellion a godwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn panel adolygu annibynnol diweddar ym mis Mawrth 2024 a ganfu nad oedd cynlluniau rhwydwaith amrywiaeth yn effeithiol.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog fod y datganiad penodol a wnaeth y Cynghorydd Carroll o'r adroddiad y gallent ei weld yn gweithio mewn partneriaeth â'r Rhwydweithiau a bod tystiolaeth o welliannau i weithlu'r Cyngor wrth sefydlu a defnyddio ei rwydweithiau amrywiol. Nid oedd y Cyngor yn anwybyddu adroddiad Llywodraeth y DU ond roedd yn cydnabod nad oedd ei rwydweithiau'n gweithredu ar eu pen eu hunain yn unig, ac y byddai'n hapus i drafod y mater ymhellach gyda'r Cynghorydd Carroll yn dilyn y cyfarfod.

Ychwanegodd Arweinydd y Cyngor hefyd ei fod ef ei hun wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau rhwydweithiau'r Cyngor a'i fod wedi eu gweld yn fuddiol iawn i'r unigolion cysylltiedig. Felly, roedd gan rwydweithiau cyfredol gefnogaeth lawn y sefydliad i gefnogi staff y Cyngor. Yn ddiweddar, roedd yr Arweinydd wedi

No.

mynychu hyfforddiant ar fod yn gynghreiriad a/neu'n wylwr rhagweithiol a amlygodd bwysigrwydd gweld arweinwyr gwleidyddol yn cefnogi pob rhan o gymdeithas.

Mewn ymateb i sylw dilynol gan y Cyngorydd Carroll ei bod yn ymddangos bod sylwadau'r Arweinydd a'r Swyddog yn gwrth-ddweud ei gilydd, crynhodd y Cadeirydd gan ddweud bod y Swyddog a'r Arweinydd yn dweud eu bod yn gweithio gyda'i gilydd a gofynnodd i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y manteision a'r effeithiau cadarnhaol ar rwydweithiau amrywiaeth y Cyngor.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd ar gynnydd yn erbyn Strategaeth Pobl y Cyngor, yr adborth a ddarparwyd a thrafodaethau ar weithgareddau yn y dyfodol wrth symud ymlaen.

(2) Cyfeirio sylw'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn ôl i'r Cabinet fel a ganlyn:

- Dosbarthu adroddiad ar fanteision a chanlyniadau cadarnhaol Rhwydweithiau Amrywiaeth y Cyngor, fel y cyfeirir atynt ym mharagraffau 2.32 – 2.34 o'r adroddiad, i holl Aelodau Etholedig y Cyngor drwy e-bost maes o law.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd yn erbyn y Strategaeth Pobl a chynlluniau ar gyfer y dyfodol wrth symud ymlaen.

(2) Galluogi'r Cabinet i ystyried barn y Pwyllgor Craffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o dan y Strategaeth Pobl.